



## COFNODION Y CYNGOR: Busnes Agored

12.30 p.m., Dydd Iau 23 Gorffennaf 2020

Fe'i cynhaliwyd mewn nifer o leoliadau, drwy feddalwedd Microsoft Teams

---

### **Busnes Agored y Cyngor – yn cynnwys cofnodion 1 i 14.**

#### **1. Presenoldeb ac Ymddiheuriadau**

Yn Bresennol: Sonia Reynolds (yn Cadeirio), Cathy Clark, Gareth Cork, Toni Schiavone (Is-Gadeirydd), Chris Franks, Caroline Davies, Salamatu Fada, Jenni Jones-Annetts, Suzanne Samuel, Guy Wallace Smith, Daryl Leeworthy, Stephen Nicholls, Tim Palazon, Julie Cook, a Dafydd Rhys (ac eithrio cofnod 8). Roedd cworwm drwy gydol y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni); Siôn Aled Owen (cyfieithydd); Mary Morris (Rheolwr AD – yn arsylydd).

Hefyd: Penelope Farrell a Shauna King (dysgwyr), Karina Scott a Leane Saunders (Swyddogion Cyflwyno'r Cwricwlwm) a Beth John (Rheolwr Rhanbarthol, De-Orllewin a Chanolbarth Cymru) – ar gyfer cofnod 2 yn unig;

Alan Woods, Claire Maxwell a Marian Jebb (swyddogion Llywodraeth Cymru) – am ran o gofnod 2 a chyfanrwydd cofnod 3 yn unig.

Ymddiheuriadau: John Graystone.

#### **2. Profiadau dwy o'n dysgwyr**

Yn dilyn croeso'r Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod rhithwir hwn, siaradodd Penelope Farrell yn frwd am ei phrofiad diweddar o gwrs Celf ar-lein y bu'n ei fynychu drwy Weithdy Dove (Banwen, Castell-nedd Port Talbot). Roedd tiwtor AOC|ALW, Peter Townend, wedi addasu a datblygu ei sgiliau yn ddiwyd i adlewyrchu'r dull newydd hwn o addysgu i'w fyfyrwyr, gan gynnwys ychwanegu fideos rhwng y dosbarthiadau wythnosol a gynhaliwyd dros y we. Os rhywbeth, roedd cynhyrchedd myfyrwyr wedi cynyddu o dan y fformat diwygiedig hwn, ym marn Penelope, a rhoddodd ganmoliaeth yn arbennig i'r cymorth ychwanegol a fu'n bosibl ar-lein, y tu hwnt i amseroedd dosbarth. Roedd fformat diwygiedig y cwrs wedi'i chynorthwyo hi'n fawr, gan gynnig ffocws rheolaidd a oedd wedi'i helpu hi'n seicolegol yn ystod y cyfnod clo. Ychwanegodd Karina Scott y dylid canmol y dysgwyr a'r tiwtor yn fawr am wneud y cwrs yn gymaint o lwyddiant, yn ei ffurf wyneb yn wyneb flaenorol ac yn ei ffurf ar-lein ddilynol.

Yna, fe wnaeth Leane Saunders gyflwyno Shauna King o Ferthyr Tudful: roedd y ddwy wedi adnabod ei gilydd ers 3 blynedd, ers i Shauna ddilyn cwrs Iaith Arwyddion Prydain gydag AOC|ALW yn wreiddiol. Ers hynny, roedd wedi cwblhau nifer o gymwysterau eraill gyda'r Sefydliad, gan gynyddu ei lefelau hunanhyder a chael gwaith sefydlog o ganlyniad. Erbyn hyn, roedd hi'n gallu cynorthwyo â gofynion dysgu'r ysgol ar gyfer ei llysfab 15 oed, mewn rôl addysgol, deuluol, a oedd o gymorth i bawb, gan ddangos cysylltiadau clir rhwng canlyniadau dysgu oedolion yn y gymuned ac agweddau ar gwricwlwm yr ysgol (cynradd ac uwchradd). Ei gobaith oedd gweithio gyda phlant anabl yn y dyfodol ac roedd Leane Saunders wedi'i henwebu'n ddiweddar am wobwr Inspire i ddysgwyr.

Diolchodd aelodau'r Cyngor i'r dysgwyr a chydweithwyr am eu cyfraniadau calonogol at y cyfarfod.

### 3. Cyflwyniad a thrafodaeth gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru

Dechreuodd Alan Woods trwy ddatgan bod ei ymdrechion ef a'i gydweithwyr yn canolbwyntio ar baratoadau ar gyfer dychwelyd i ddysgu. Nid oedd y ffaith bod gwybodaeth a sylw'r cyfryngau wedi canolbwyntio ar ysgolion, addysg uwch ac, i raddau, addysg bellach, yn sarhad bwriadol: roeddent yn cydnabod pwysigrwydd dysgu oedolion yn y gymuned, gyda'r lefelau uwch o ddysgu cyfunol a oedd yn cael ei ddarparu yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac yn fodd o addasu yn wyneb y posibilrwydd o ail don o'r pandemig. Bu'n dda clywed yr hyn a ddywedodd y ddwy ddysgwraig yn gynt yn y cyfarfod, a byddai'n ddefnyddiol clywed beth ym marn aelodau'r Cyngor oedd y blaenoriaethau i'r Sefydliad ac i'r sector cyfan yn awr.

Roedd Cathy Clark yn swyddog yn un o'n canghennau (Oakdale a'r Coed-duon) ac nid oedd gan lawer o'i haelodau galedwedd digidol addas ar gyfer y realiti newydd. Cadarnhaodd cynrychiolwyr y Llywodraeth fod y Gweinidog wedi rhyddhau symiau penodol o arian at y diben hwnnw ac y byddem yn gwybod yr union fanylion amdanynt dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru'n rhoi rhagor o arian i gynorthwyo AOC|ALW i symud yn ehangach y tu hwnt i addysgu wyneb yn wyneb i addysgu digidol. Dywedodd Marian Jebb fod rhaglen Digidol 2030 eisoes wedi bodoli yn ei maes hi cyn Covid-19 a bod y misoedd diwethaf wedi prysuro'r broses honno yn y maes hwnnw. Byddai'r pwyslais cychwynnol yn cael ei roi ar gyllid ar gyfer allgáu digidol – gwelliannau i gysylltedd; yna, gobeithid y byddai mwy o gyllid cyfalaf ar gyfer cyfarpar TG. Roedd gan Salamatu Fada brofiad o gynllun ariannu'r Loteri Fawr, a roddodd galedwedd TG i blant eithriedig ar fenthyg, yn hytrach na'i rhoi'n barhaol: roedd hyn fel pe bai'n anghyson â mynd i'r afael â lefelau difreintedd. Er bod Llywodraeth Cymru'n darparu'r caledwedd gofynnol i gynorthwyo â llunio cysylltiadau digidol drwy ei grantiau, nid oedd sicrwydd ynghylch cyllid ar ôl y flwyddyn gyntaf, felly dylai offer o'r fath aros yn eiddo i'r sefydliad a gafodd y grant.

Gofynnodd Stephen Nicholls p'un ai oedd 'cynnydd dangosadwy' – maen prawf ar gyfer mesur derbynioldeb deilliannau addysgol, a ddefnyddiwyd gan gyn-uwch-was sifil – yn derm pwysig ôl Covid-19 i adran addysg bellach Llywodraeth Cymru o hyd. Dywedodd Alan Woods na ellid gwarantu cyllid ar gyfer holl ddarpariaeth bresennol AOC|ALW, felly byddai tystiolaeth ac adborth ar farn AOC|ALW ynghylch ei flaenoriaethau yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned yn ddefnyddiol. Roedd Stephen Nicholls o'r farn bod cymaint o werth ychwanegol eang a gawsai dysgwyr o'n cyrsiau fel bod 'cynnydd' yn mynd i sawl cyfeiriad ac, yn ei hanfod, roedd yn anoddach ei fesur a'i ddangos mewn modd mesuradwy.

Roedd Daryl Leeworthy yn diwtor yn ein cangen ym Merthyr Tudful ar ddosbarth a oedd yn cynnwys pobl dros 80 oed, i raddau helaeth, a oedd yn fwyfwy unig ac ar eu pen eu hunain, ond na fyddai cynhwysiant digidol yn gweithio iddynt: nod sylfaenol eu haddysg oedd y rhyngweithio cymdeithasol a ddaeth ohono. Roedd cynrychiolwyr y Llywodraeth yn ymwybodol nad oedd opsiynau digidol yn ateb i bob problem, a bod rhyngweithiadau addysgol traddodiadol hefyd yn dwyn buddion sylweddol i iechyd. I wneud y mwyaf o hynny, roedd angen cysylltiadau trawsadrannol agosach â'r meysydd, a chyllidebau, iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai tystiolaeth fideo gadarn gan ein dysgwyr helpu i ddarbwylllo eraill o fewn Llywodraeth Cymru am bwysigrwydd yr agweddau ehangach hyn ar brofiad dysgu oedolion, hyd yn oed pe bai allbynnau mesuradwy yn anodd eu profi. Cadarnhaodd y cynrychiolwyr y dylai AOC|ALW chwilio am arian newydd posibl o gyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol, yn seiliedig ar dystiolaeth i ategu'r dull hwnnw a'r haeriadau a wnaed bod lles a llesiant yn ddeilliannau trawstoriadol pwysig, profedig o ran addysg oedolion. Roedd angen tystiolaeth ymchwil i ategu pwyntiau o'r fath a wnaed gan y Cyngor er mwyn darbwyllo adrannau eraill a Gweinidogion: gan fod Covid-19 wedi cynorthwyo i waredu rhai o'r seilos adrannol ar lefel y Llywodraeth, gallai cyflwyno prawf o'r fath fod yn amserol.

Gofynnwyd cwestiwn am ddatblygiadau yn y corff cydlynu cenedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned, yn dilyn datganiad 2019 y gweinidog arno. Yr ymateb oedd mai'r Cynllun Gwydnwch ar gyfer Covid-19 fu'r flaenoriaeth ddiweddar i'r adran, ond pan oedd hwnnw ar waith yn llawn, y nod oedd ailddechrau lle y rhoddwyd y gorau i bethau ynghylch y corff cenedlaethol a'i rôl. Yn sicr, nid oedd Llywodraeth Cymru mor bell ymlaen ag yr oedd wedi gobeithio erbyn hyn. Rhoddodd agenda Cenedlaethau'r Dyfodol bwyslais ar ddysgu oedolion hefyd, yn yr un modd â'r ymrwymiad dinesig/strategaeth ymgysylltu ar lefel addysg uwch. Eto, cyfeiriwyd at yr angen am sail dystiolaeth, i ddangos sut roedd cydblethu o'r fath yn gweithio o ran cysylltiadau clir â dysgu gydol oes. Yn olaf, cafwyd trafodaeth am yr effeithiau niweidiol diweddar ar wasanaethau gofal plant a thrafnidiaeth, a'u goblygiadau i addysg oedolion.

Diolchwyd i'r tri swyddog am eu cyfraniadau a'r hyn a gyflwynwyd gan bawb i gnoi cil arno. Mynegwyd gwerthfawrogiad am gymorth parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

#### **4. Y sefyllfa bresennol o ran swyddi gwag aelodau'r Cyngor**

Rhoddodd Stephen Thomas wybod i aelodau fod Malgorzata Zedler, y dysgwr-lywodraethwr a etholwyd ym Mawrth 2020, wedi rhoi'r gorau i'r rôl honno am resymau personol ychydig wythnosau'n gynt (heb fynychu unrhyw gyfarfodydd). Felly, roedd 16 aelod presennol o'r Cyngor: nid oedd y seddi etholedig ar gyfer rhanbarthau democrataidd y Gogledd-Orllewin a'r Gogledd-Ddwyrain, ac un swydd i'w phenodi o blith aelodau ein Sefydliadau Cyswllt a Phartner, wedi'u llenwi eto, er yr oedd enwau posibl ar gyfer y tair swydd wag hynny yn derbyn dilyniant.

#### **5. Cofnodion Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 20 Mai 2020 a materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion y trafodion Busnes Agored yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams, yn gofnod cywir. Trafodwyd dau fater yn y cofnodion ymhellach. Yn y grŵp gorchwyl a gorffen ar ddyfodol canghennau (cofnod 3), roedd yr archwiliad mewnol a gwblhawyd yn ddiweddar gan TIAA wedi cynnal asesiad o'r berthynas rhwng canghennau a'r Sefydliad canolog. **Byddai ei ganfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio gwaith y grŵp pan fyddai adroddiad terfynol TIAA wedi dod i law.** Yn yr un cofnod, dywedwyd y **byddai'r arolwg amrywiaeth o aelodau'r Cyngor yn cael ei ddosbarthu yn ystod yr wythnosau nesaf.**

#### **6. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwr a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2020**

Nododd y Cyngor y cofnodion hyn o'r mis cynt. Canmolodd Caroline Davies, Cadeirydd y Pwyllgor, y gwaith caled a wnaeth staff y swyddfa a thiworiaid i roi cymaint o ddarpariaeth addysgol ar-lein: adlewyrchwyd hynny yn fanylach yn Adroddiad y Cwricwlwm, yn nes ymlaen ar agenda'r Cyngor. Gofynnwyd pa ddilyn i fyny fuodd ynghylch allgáu digidol, a drafodwyd yn amryw gofnodion y Pwyllgor. Dywedwyd fod her o hyd wrth sicrhau bod dysgwyr penodol yn gallu cael eu haddysg ar-lein a bod angen parhaus i dargedu'r rheini â'r angen mwyaf am gymorth. Roedd y Sefydliad yn aros am gadarnhad y byddai mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru a ffynonellau eraill posibl ar gyfer adnoddau TG iddo wneud hynny: yn y cyfamser, roedd wedi gwneud cymaint ag y gallai gyda'i stoc gyfyngedig braidd o gyflenwadau caledwedd/meddalwedd TG i ddysgwyr hyd yn hyn.

#### **7. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf 2020**

Tynnodd Toni Schiavone, Cadeirydd interim y Pwyllgor, sylw i dri phwynt yn y cofnodion, y gwnaeth y Cyngor eu nodi. O ran sefyllfa ariannol 2020-21 (y byddai agenda'r Cyngor yn mynd i'r afael ag ef yn llawn maes o law), roedd hi'n anochel y byddai colled ariannol – efallai cymaint â £1/2 miliwn. Roedd y cynigion ar gyfer newidiadau i'r strwythur staffio, i'w trafod yn y cofnod canlynol, wedi'u dadlau'n fanwl ac, o ystyried y sefyllfa ariannol debygol, roedd y pwysigrwydd bod y newidiadau arfaethedig yn newidiadau niwtral o ran cost yn allweddol. Ac, yn olaf, roedd y strategaeth ystadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn gonglfaen pwysig yn nyfodol y sefydliad o hyd. Gwnaed yr unig sylw gan Chris Franks – roedd yn dawel ei feddwl fod ymdrech glodwiw wedi'i gwneud i ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer y flwyddyn i ddod, er gwaethaf anawsterau o ran gosod cyllidebau ystyrion o dan yr amgylchiadau presennol.

## 8. Newidiadau i Strwythur Staffio AOC|ALW, 2020

[Gadawodd Dafydd Rhys y cyfarfod ar ddechrau'r eitem hon a dychwelodd ar gyfer yr eitem nesaf ar yr agenda.] Disgrifiodd Cath Hicks y cynigion a gyflwynwyd yn wreiddiol ym mis Mawrth, a gafodd eu hatal oherwydd bod Covid-19 wedi dangos bod angen newid ehangach i wneud y Sefydliad yn addas i'w heriau newydd, ac aeth drwy'r papur mwy helaeth a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau ddechrau Gorffennaf. Er y bu rhywfaint o ymgynghori â'r staff yn barod, byddai hynny'n fwy trylwyr a ffurfiol pe bai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo, a byddai'r ymgynghoriad yn digwydd ar lefel unigol a chyda'r undeb llafur, Unite.

Dywedodd Chris Franks mai'r bwriad oedd i'r Sefydliad fod yn gorff dwyieithog i Gymru gyfan. Eto, roedd colli tri aelod staff, bob un ohonynt yn siaradwyr Cymraeg ac yn gweithio yng ngogledd orllewin Cymru, mewn perygl o atgyfnerthu'r amgyffrediad yr oeddem yn sefydliad uniaith wedi'i leoli'n bennaf ar hyd coridor yr M4; yn ei farn ef, ni fyddai'r oriau addysgu ychwanegol a roddid i 5 tiwtor Cymraeg eu hiaith yn disodli'r sgiliau Cymraeg a fyddai'n cael eu colli yng nghalon y sefydliad. Wrth ymateb i hynny, pwysleiswyd nad oedd yr hyn a oedd ar waith ar hyn o bryd wedi dod yn unman agos at gyrraedd y targed a osodwyd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg – nid oedd y strwythur presennol wedi gweithio dros y ddwy flynedd flaenorol. Roedd yr ymrwymiad cyllidebol o £30,000 tuag at diwtoriaid cyfrwng Cymraeg (er ei fod yn ymddangos yn fach) yn fwy na'r hyn a wariwyd dros y naill neu'r llall o'r ddwy flynedd hon, a gallai arwain at fwy o farchnata cyrsiau a mwy o arbenigedd digidol. Yn briodol, byddai'r pwyslais nawr ar y rhanbarthau cwricwlaid i gyflawni ein hymrwymiad i addysg cyfrwng Cymraeg, a chyfeiriwyd at statws 'hynod ddymunol' sgiliau dwyieithog y penodai newydd i rôl y Swyddog Marchnata Digidol a'i fod yn berthnasol fan hyn. O ran y tri aelod staff mewn perygl o golli eu swyddi, cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyllid ar gyfer gwaith prosiect a allai olygu'u bod yn cael eu trosglwyddo i ddyletswyddau eraill wedi dod i law eto. Cydnabuwyd bod potensial colli eu profiad a'u gwybodaeth gorfforaethol yn risg i'r Sefydliad.

Hefyd, cyfeiriodd dau aelod o'r Cyngor at amgyffrediad o berygl i'r mudiad gwirfoddol yn y cynigion hyn, sef bod y mudiad gwirfoddol, ac ymgysylltu democrataidd, yn cael eu gwrthio i'r cyrion. Yr honiad oedd bod 6,000 a mwy o aelodau o'r Sefydliad erbyn hyn – a fyddai timau cwricwlwm rhanbarthol, fel yr amlinellir, yn ymdrin yn effeithiol â nhw? Cydnabuwyd na wnaed digon yn y gorffennol agos i gefnogi'r aelodau yn ehangach. Mynegodd yr Uwch Dîm Rheoli ei rwystredigaeth gyfunol nad oedd dau ymrwymiad canolog – ynghylch ymgysylltu democrataidd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg – wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn ddiweddar. Er nad oedd yn ymddangos felly yn y cynigion ysgrifenedig o bosibl, y bwriad oedd cryfhau ymrwymadau i'r ddwy agwedd allweddol hyn ac, felly, rhoi'r gorau i'r haerriad fod yr agwedd ddemocrataidd yn benodol yn ffactor unigryw i AOC|ALW pan nad oedd strwythurau staffio effeithiol i'w weithredu yn ategu'r addewid, mewn gwirionedd. Bwriadwyd y byddai rhannu'r rôl honno ymhlith mwy o aelodau staff yn fodd o ddwysáu ei hôl yn y Sefydliad.

Nid oedd Chris Franks wedi'i argyhoeddi ac roedd y dadleuon yn peri pryder iddo: iddo ef, heblaw'r teyrngarwch a fynegwyd gan aelodau'r Pwyllgor Adnoddau a oedd wedi codi'u llais, nid oedd yn ymddangos bod llawer o frwdfrydedd ymhlith aelodau eraill y Cyngor ar gyfer y camau hyn ac roedd yn parhau i deimlo bod ymrwymiad o £30,000 i diwtoriaid cyfrwng Cymraeg yn fuddsoddiad tila. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, bod argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau ar gyfer cymeradwyo wedi digwydd ar ôl llawer o drafodaeth. Cynigiodd yr Uwch Dîm Rheoli fod agwedd gadarnhaol i gymeradwyo'r cynigion heddiw, sef y byddai'n lleihau ansicrwydd i'r staff hynny yr oedd effaith uniongyrchol a negyddol arnynt.

**Cadarnhaodd y Cyngor ei fod yn fodlon i'r cynigion fod yn destun ymgynghoriad ffurfiol, ac roedd wedi'i sicrhau nad oedd bwriad i ddiswyddiadau gorfodol fod yn ganlyniad y cynigion hyn. Pe bai'r cyfnod ymgynghori yn ysgogi newid sylweddol i'r cynigion, byddai'r Cyngor yn cael y cynllun diwygiedig i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Medi; pe na bai llawer o newid, neu pe na bai newid o gwbl, byddai adroddiad ysgrifenedig ar gynydd yn y cyfarfod hwnnw.**

#### **9. Materion Ariannol – Adroddiad Ariannol a Chyfrifon Rheoli hyd at 31 Mai 2020**

Rhannodd Mark Baines y ddogfen a ddosbarthwyd gyda'r Cyngor ar y sgrin a mynd drwy'r holl bwyntiau allweddol oedd wedi'u hamlygu yn ei thudalennau agoriadol. O ran yr ymrwymiad a wnaed i diwtoriaid i'w talu am yr holl gyrsiau a drefnwyd yn flaenorol yn ystod Tymor 3, p'un ai a oeddent wedi mynd yn eu blaen ai peidio, roedd eu hamser 'dros ben' wedi'i ddefnyddio'n aml trwy ymgymryd â dyletswyddau marcio eilaidd, paratoi ac addasu deunyddiau ar gyfer cyrsiau ar-lein, neu gadw mewn cysylltiad â dysgwyr hyd yn oed os nad oedd cyflwyno'n uniongyrchol wedi bod yn bosibl. Er nad oedd yn ddymunol, gellid talu'r diffyg o ryw £177,000 a ragwelwyd ar gyfer 2019/20 oherwydd bod ychydig o dan £4 miliwn o arian wrth gefn yn ein hamrywiol gyfrifon banc, gyda'r balansau wedi'u rhannu rhwng rhai cyfrifon ag adenillion uwch a chyfrifon eraill, i ledaenu'r risg ariannol. Fe wnaeth Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio longyfarch y Tîm Cyllid am sicrhau systemau a goruchwyliaeth dda i alluogi cymaint o gronfeydd wrth gefn i fod ar gael.

#### **10. Materion Ariannol – Cyllidebau arfaethedig ar gyfer 2020-21 ac Effaith Bosibl Covid-19**

Fel y nodwyd yn flaenorol, cymeradwywyd y papur hwn gan y Pwyllgor Adnoddau, a oedd wedi ystyried bod y ffigurau yn ddarvoudus ac roedd yn ystyried yn gadarnhaol y ffaith y gallai ein cronfeydd wrth gefn ymdopi â diffyg a oedd yn hydrin ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod yn ogystal, er mor annymunol oedd y senario. Seiliwyd y gyllideb ar addewid o gynyddu allbynnau cyflwyno 6%, yn unol â'r cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Eto, roedd y senarios tebygol yn symud yn wythnosol, gan arwain at lefel uchel o ansicrwydd: senario'r sefyllfa waethaf a gynigiwyd fan hyn oedd diffyg o oddeutu £470,000, er y gellid tybio y gallai trafodaethau cyfredol â gweision sifil arwain at ostwng y targedau cyflawni a gytunwyd eisoes. Yn y pen draw, fodd bynnag, roedd ein Memorandwm Ariannol â Llywodraeth Cymru yn pennu bod rhaid i ni gymeradwyo cyllideb warged: felly, dyma pam roedd y gyllideb y cytunodd y Pwyllgor Adnoddau arni yn rhagweld gwarged o oddeutu £33,000, gan fodloni'r pum targed ariannol ar gyfer y flwyddyn hefyd.

Disgwyliwyd y byddai ffioedd dosbarthiadau yn gostwng oherwydd y rhagwelwyd y byddai mwy o bobl ddi-waith yn ymuno â'n cyrsiau; byddai costau glanhau yn codi, yn ein swyddfeydd ac yn ein lleoliadau cymunedol, a byddai cynnydd o 2.5% i gyflog gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar ein gwariant hefyd. Gofynnodd y Cyngor pam nad oedd y gyllideb farchnata wedi'i chodi, er bod hynny'n thema gyson yng nghyfarfodydd y Cyngor a bod teimlad ymhlith rhai aelodau'r Cyngor bod angen cynnal ail-lansiad bach o'r Sefydliad, o ystyried yr amgylchiadau eithafol presennol. Yr ateb oedd bod cyflogi ail weithiwr

marchnata amser llawn, newydd, yn ymrwymiad ychwanegol clir at y maes hwnnw ac y byddai yn ddo'i hun yn cynyddu gweithgarwch marchnata.

**Cymeradwydd y Cyngor y gyllideb warged fel y'i cynigiwyd; nododd hefyd y gyllideb diffyg ariannol arall a gyflwynwyd ochr yn ochr â hi ac a ragwelodd effeithiau Covid-19 ar gyllid y sefydliad am y flwyddyn.**

## **11. Adroddiad y Prif Weithredwr, Gorffennaf 2020, gan gynnwys yr Adroddiad ar y Cwricwlwm**

Unwaith eto, pwysleisiodd Kathryn Robson ymdrechion enfawr y gweithlu cyfan, aelodau Tîm Rheoli'r Coleg a'r Uwch Dîm Rheoli yn eu plith, yn ystod y cyfnod heriol hwn. Roedd 180 o gyrsiau bellach wedi'u trosi'n gyrsiau ar-lein. O ran dychwelyd o bosibl i addysgu/cyrsiau wyneb yn wyneb, roedd y drafodaeth yn parhau yng nghylchoedd Llywodraeth Cymru a Cholegau Cymru ynghylch cadw pellter cymdeithasol o 2 neu 1 metr; o ran lleoliadau addysgol cymunedol, roedd canllawiau a oedd yn dod i'r amlwg gan lywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn cael eu dilyn yn ddyfal, gydag AOC|ALW i gyflawni asesiadau risg ychwanegol ar gyfer pob lleoliad a allai, o bosibl, ddod yn weithredol eto i ni eu defnyddio. Dylai'r prosiect ymchwil ddarparu tystiolaeth o'r hyn oedd yn ofynnol i ateb cwestiynau a godwyd yng nghofnod 3: cafwyd 11 cais tendr ar ei gyfer, a byddai Daryl Leeworthy, Mark Baines a Kathryn Robson yn llunio rhestr fer ohonynt.

Yn yr Adroddiad ynghlwm ar y Cwricwlwm, roedd rhaglen o ddigwyddiadau haf bach Mihangel ar waith i hybu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a materion eraill. Bu gwelliannau i allbwn Addysg Sylfaenol Oedolion; roedd y potensial i ganghennau ddod yn rhan o ddyfodol dysgu cyfunol y Sefydliad; roedd yr agenda iechyd a llesiant yn cael ei bwysleisio ymhellach gan ein staff yn ystod y cyfnod hwn; hefyd, roedd agor 'canolfan ragoriaeth' gennym yng Nghasnewydd yn bosibilrwydd. Codwyd cwestiwn am gyrsiau wedi'u hysbysebu ar wefan AOC|ALW heb ddisgrifiad o'r cwrs na ffi'r cwrs. Heb fanylion o'r fath, tybiwyd a fyddai darpar ddysgwyr yn cofrestru'u diddordeb ymlaen llaw, yn unol â'r cais, neu p'un ai a oedd gwybodaeth mor gyfyngedig yn rhwystr i ddarpar ddysgwyr.

## **12. Y Gofrestr Risg ar gyfer Gorffennaf 2020**

Roedd y mewnbwn gan aelodau i gyfarfod mis Mai y Cyngor wedi'i gymhathu, gyda chynnydd o ganlyniad yn y lefelau risg net wedi'u priodoli i dair risg: 1.1.1 (cyllid y llywodraeth), 1.2.1 (cynllunio ariannol) ac 1.2.3 (effaith ariannol Covid-19). Roedd sicrwydd o gynnydd yng nghyflogau athrawon/ gweision cyhoeddus yn benderfyniad polisi ychwanegol a allai gael goblygiadau ariannol i AOC|ALW hefyd.

Codwyd dau gwestiwn: byddai'r hyfforddiant ar faterion diogelu data, a addawyd ers tro i ganghennau, yn mynd yn ei flaen ar ôl derbyn yr adroddiad archwilio mewnlol gorffenedig ar y berthynas â changhennau; o ran risg 2.1.2, sef methu cyflawni'r targed o 5% ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg am ail flwyddyn o'r bron, cadwyd dosbarthiad risg net Oren (a sgôr o 9) oherwydd dim ond risgiau a fyddai â'r potensial i gau'r Sefydliad, pe baent yn dod yn wir, oedd yn derbyn dosbarthiadau Coch a'r sgorau risg uchaf. Nid dyna'r achos gyda'r targed ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ni waeth pa mor annymunol oedd ei ganlyniad.

## **13. Hunanasesu trafodion y cyfarfod gan aelodau'r Cyngor**

Rhoddodd aelodau sylwadau ar y mewnbwn hynod gadarnhaol gan ein dwy ddysgwraig ar ddechrau'r cyfarfod. Teimlai un aelod o'r Cyngor rwystredigaeth â rhai o sylwadau swyddogion Llywodraeth Cymru, ond teimlai fod y cyfarfod wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan wrth fynd i'r afael â rhai materion anodd.

#### 14. Dyddiadau cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2020-21

Trefnwyd bod pob un o chwe chyfarfod y Cyngor i ddechrau am 12.30 pm. Byddai lleoliadau daearyddol yn cael eu cadarnhau eto, pe bai cyfarfodydd yn symud o ddiwyddiadau fideo rhithwir i gynulliadau amgaeedig go iawn.

- 2020 - Dydd Iau 24 Medi
- Dydd Mercher 25 Tachwedd
- 2021 - Dydd Llun 25 Ionawr
- Dydd Iau 11 Mawrth
- Dydd Mawrth 30 Mawrth (Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Diwrnod Cynllunio Strategol)
- Dydd Mawrth 18 Mai
- Dydd Iau 27 Gorffennaf

#### PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeirnod	Enw'r cofnod	Cam gweithredu y cytunwyd arno	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 5	Materion yn codi o gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020	Byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ddyfodol canghennau yn ymateb i adroddiad archwilio mewnol TIAA ar berthynas canghennau â'r Sefydliad.  Byddai arolwg amrywiaeth aelodau'r Cyngor yn cael ei ddsbarthu o fewn yr wythnosau nesaf.	MB / Cathy Clark / Daryl Leeworthy / Tim Palazon  CH / ST	Medi 2020  Awst 2020
Cofnod 8	Newidiadau arfaethedig i Strwythur Staffio AOC ALW, 2020	Cadarnhaodd y Cyngor ei fod yn fodlon i'r cynigion ailstrwythuro fod yn destun ymgynghoriad ffurfiol, ac roedd wedi'i sicrhau nad oedd bwriad i ddiswyddiadau gorfodol fod yn ganlyniad y cynigion hyn. Pe bai'r cyfnod ymgynghori yn ysgogi newid sylweddol i'r cynigion, byddai'r Cyngor yn cael y cynllun diwygiedig i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Medi; pe na bai llawer o newid, neu pe na bai newid o gwbl, byddai adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd yn y cyfarfod hwnnw.	KR / CH / MB	Medi 2020
Cofnod 10	Materion Ariannol – Cyllidebau arfaethedig ar gyfer 2020-21 ac Effaith Bosibl Covid-19	Cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb warged fel y'i cynigiwyd; nododd hefyd y gyllideb diffyg ariannol arall a gyflwynwyd ochr yn ochr â hi ac a ragwelodd effeithiau Covid-19 ar gyllid y sefydliad am y flwyddyn.	MB	Awst 2020